OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 698 (Cy. 117) (C. 29)

2025 No. 698 (W. 117) (C. 29)

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

Gorchymyn Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2025

The Infrastructure (Wales) Act 2024 (Commencement No. 1) Order 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Dygodd adran 147 o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("y Ddeddf") y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf honno i rym ar 4 Mehefin 2024, sef drannoeth y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Rhan 1,

(b) darpariaethau Rhannau 2 i 8 sy'n—

(i) rhoi pŵer i wneud rheoliadau, neu

(ii) gwneud darpariaeth ynglŷn â'r hyn y caniateir ei wneud (neu na chaniateir ei wneud) wrth arfer pŵer i wneud rheoliadau,

(c) Rhan 9, ac eithrio adran 145.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym weddill darpariaethau'r Ddeddf at bob diben ar 15 Rhagfyr 2025, ac eithrio—

(a) adran 40(2) (penodi awdurdod archwilio i archwilio cais i ddirymu neu newid gorchymyn cydsyniad seilwaith),

(b) adran 90 (pŵer i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith),

(c) adran 91 (y weithdrefn: newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith),

(d) adran 92 (newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith: trefniadau ffurfiol), ac eithrio fel y darperir ar ei chyfer yn erthygl 4,

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Section 147 of the Infrastructure (Wales) Act 2024 ("the Act") brought the following provisions of that Act into force on 4 June 2024, which was the day after the Act received Royal Assent—

(a) Part 1,

(b) the provisions of Parts 2 to 8 that—

(i) confer power to make regulations, or

(ii) make provision about what is (or is not) permitted to be done in the exercise of a power to make regulations,

(c) Part 9, except section 145.

This Order brings into force the remaining provisions of the Act for all purposes on 15 December 2025, except—

(a) section 40(2) (appointing an examining authority to examine an application to revoke or change an infrastructure consent order),

(b) section 90 (power to change or revoke infrastructure consent orders),

(c) section 91 (procedure: changing and revoking infrastructure consent orders),

(d) section 92 (changing and revoking infrastructure consent orders: formalities), other than as provided in article 4.

(e) adran 93 (newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith: digolledu am newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith),

(f) adran 96(5) (heriau cyfreithiol),

(g) adran 96(6) ac (8) (heriau cyfreithiol), ac eithrio fel y darperir ar eu cyfer yn erthygl 4,

(h) adran 124(3)(a)(ii) (cyngor, gwybodaeth neu gymorth arall a ddarperir mewn cysylltiad â chais i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith), ac

(i) Atodlen 2.

(e) section 93 (changing or revoking an infrastructure consent order: compensation for changing or revoking an infrastructure consent order),

(f) section 96(5) (legal challenges),

(g) section 96(6) and (8) (legal challenges), other than as provided in article 4,

(h) section 124(3)(a)(ii) (advice, information or other assistance provided in connection with an application to make a change to or to revoke an infrastructure consent order), and

(i) Schedule 2.

2025 Rhif 698 (Cy. 117) (C. 29)

CYNLLUNIO SEILWAITH, CYMRU

Gorchymyn Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2025

Gwnaed *16 Mehefin 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 147(2) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024(**1**).

Enw

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cydsyniad seilwaith" ("*infrastructure consent*") yw'r cydsyniad sy'n ofynnol gan adran 19 o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 15 Rhagfyr 2025

3. Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 15 Rhagfyr 2025, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) Rhannau 2 a 3,

(b) Rhan 4 ac eithrio adran 40(2) (penodi awdurdod archwilio i archwilio cais i ddirymu neu newid gorchymyn cydsyniad seilwaith),

(c) Rhan 5,

(d) adrannau 63 i 89,

(**1**) 2024 dsc 3.

2025 No. 698 (W. 117) (C. 29)

INFRASTRUCTURE PLANNING, WALES

The Infrastructure (Wales) Act 2024 (Commencement No. 1) Order 2025

Made *16 June 2025*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on them by section 147(2) of the Infrastructure (Wales) Act 2024(**1**).

Title

1. The title of this Order is the Infrastructure (Wales) Act 2024 (Commencement No. 1) Order 2025.

Interpretation

2. In this Order—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Infrastructure (Wales) Act 2024;

"infrastructure consent" ("*cydsyniad seilwaith*") means the consent required by section 19 of the Act.

Provisions coming into force on 15 December 2025

3. The following provisions of the Act come into force on 15 December 2025 in so far as they are not already in force—

(a) Parts 2 and 3;

(b) Part 4 except section 40(2) (appointing an examining authority to examine an application to revoke or change an infrastructure consent order),

(c) Part 5,

(d) Sections 63 to 89,

(**1**) 2024 asc 3.

(e) adran 92(1)(a) a (b) a (2),

(f) adrannau 94 a 95,

(g) adran 96(1) i (4) a (7),

(h) adrannau 97 i 102, Rhan 7,

(i) Rhan 8 ac eithrio adran 124(3)(a)(ii) (cyngor, gwybodaeth neu gymorth arall a ddarperir mewn cysylltiad â chais neu gais arfaethedig i newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith),

(j) adran 145,

(k) Atodlen 1, ac

(l) Atodlen 3.

Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 15 Rhagfyr 2025 i'r graddau a bennir

4. Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 15 Rhagfyr 2025 i'r graddau a bennir mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath—

(a) adran 92(3) mewn perthynas â gorchymyn a wneir yn rhinwedd adran 87(4) (cywiro gwallau mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith sy'n offeryn statudol), a

(b) adran 96(6) ac (8) (heriau cyfreithiol) mewn perthynas â chais am gydsyniad seilwaith.

(e) Section 92(1)(a) and (b) and (2),

(f) sections 94 and 95,

(g) section 96(1) to (4) and (7),

(h) sections 97 to 102, Part 7,

(i) Part 8 except section 124(3)(a)(ii) (advice, information or other assistance provided in connection with an application or proposed application to make a change to or to revoke an infrastructure consent order),

(j) section 145,

(k) Schedule 1, and

(l) Schedule 3.

Provisions coming into force on 15 December 2025 to the extent specified

4. The following provisions of the Act come into force on 15 December 2025 to the extent specified in relation to each such provision—

(a) section 92(3) in relation to an order made by virtue of section 87(4) (correcting errors in an infrastructure consent order which is a statutory instrument), and

(b) section 96(6) and (8) (legal challenges) in relation to an application for infrastructure consent.

Rebecca Evans

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
16 Mehefin 2025

Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning, one of the Welsh Ministers
16 June 2025

©℗Hawlfraint y Goron 2025

© Crown copyright 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39698-0



£5.78